YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1874. [RHIF 19.

Profwch bob peth ; deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

AWDURDOD Y BEIBL.

AR ol sylwi yn y rhifyn diweddaf o'r YMOFYNYDD ar awdurdod yr Eglwys, âf yn mlaen yn mhellach y tro hwn i sylwi ar awdurdod y Beibl. Mae dau syniad cyssylltiedig â'u gilydd yn cael eu dal mewn perthynas i awdurdod y Beibl. Un yw fod y Beibl wedi ei ysprydoli yn anffaeledig ; fod pob gair ag sydd yn ein Beiblau ni yn deilliaw yn uniongyrchol oddiwrth ysprydd Duw, a'i fod yn hollol ac yn llythyrenol wir ; neu fel y dywedai un unwaith [heb wybod, fe dybiwn, nad yw'r *t* yn cael ei chroesi na'r *i* yn cael ei *doto* yn y Groeg,] ei fod yn credu fod pob *t* wedi ei chroesi a phob *i* wedi ei doto gan ysprydoliaeth uniongyrchol yr Ysprydd Glân. Dyna un syniad am awdurdod y Beibl. Ni wna y syniad arall, fe dybiwn, fyned mor bell yn nghyfeiriad ysprydoliaeth lythyrenol ; gall ildio llawer mewn perthynas i faterion gwyddor a hanes, er yn eithaf anewyllysgar i wneyd hyny ; ond mae y syniad yma sydd yn cael ei ddal gan y rhan fwyaf o Brotestaniaid yn myntumio yn ymarferol fod yn y Beibl rhyw un gyfundrefn gyflawn a chysson o athrawiaeth grefyddol ag y gall pob darllenwr gofalus a pharchus ei chanfod drosto ei hunan. Ac os nad yw y darllenydd gofalus a pharchus yn ei chanfod,—os y dygwydd iddo, fel fy hun, i grwydro i diroedd pellenig yr heresi Undodaidd, fe fydd yn gwneyd hyny ar ei berygl. Yn awr, 'rwyf yn meddwl mai dyma y syniad cyffredin am awdurdod y Beibl ; ac 'rwyf yn dueddol iawn i ofyn cwestiwn nad wyf wedi llwyddo hyd yn hyn i gael atteb eglur a dealladwy iddo, sef, beth sydd yn ein gwarantu ni i gredu fod y Beibl yr hyn mae y syniad yma yn ei osod allan ? Nid yw y Beibl yn hawlio yr awdurdod yma drosto ei hunan. Nid yw yr hyn a alwn ni

y Beibl mewn gwirionedd, fel mae pawb yn gwybod, yn un llyfr, yn ddau lyfr, nac yn ugain o lyfrau; mae yn ddau gasgliad o lyfrau, yn ddwy lenyddiaeth gyfan; un o honynt braidd yr oll o'r lenyddiaeth Iuddewig ag sydd wedi aros, a'r llall y lenyddiaeth a ymgasglodd oddiamgylch bywyd Crist a phregethiad boreuol yr Apostolion. Yn awr darfu i'r lenyddiaeth Gristionogol, yr hyn a alwn ni y Testament Newydd, yn sicr, a rhoddi digon o amser i'r beirniaid diweddar, dyfu i fyny tufewn i'r yspaid o 150 o flynyddau; ond bu y llenyddiaeth arall lawer o ganoedd o flynyddoedd cyn dyfod i'w ffurf a'i chyflawnder presenol. Mae yn gynyrch awduron amrywiol, y rhai a ysgrifenent mewn oesoedd gwahanol, ac yr oeddynt gan mwyaf yn anwybodus o weithiau y naill y llall. Mae yr Hen Destament yn cynnwys hanesiaeth, barddoniaeth, ac athroniaeth, ac mae llyfr Job, ac feallai hefyd yr hyn a elwir Caniadau Solomon, yn fath o *ddramas*. Nid oes gan yr holl lyfrau, wrth eu cymmeryd gyda'u gilydd, un nodwedd gyffredinol, un undeb cyffredinol mewn unrhyw ystyr a fyddai yn cyfiawnhau yr hawl a wneir dros eu hanffaeledigrwydd. Ac felly am y Testament Newydd. 'Does gyda ni ddim hanes o gwbl fod Paul yn gwybod am yr Efengylau. Cafodd yr Efengylau eu hysgrifenu yn mhell ar ol Epistolau Paul. 'Does ond ychydig reswm dros dybied fod un Apostol yn gwybod am lythyrau yr Apostol arall. Fe dyfodd y llyfrau yma i fyny wrthynt eu hunain o un i un, yn gymhwys fel ag y mae llyfrau yn tyfu i fyny yn ein plith ni yn awr; ac nid yw haeru y gallant hawlio y cymmeriad yma o anffaeledigrwydd gwyrthiol ond haeru yr hyn sydd yn wrthwynebol i'r ffeithiau mwyaf amlwg. Ond, wedi'n, os nad yw y Beibl yn hawlio yr anffaeledigrwydd yma drosto ei hunan, pa reswm arall all fod genym dros hyny? Gofynwch i'r Roman Catholic, ac fe rydd i chwi atteb dealladwy a synwyrol. Mae ganddo ei atteb yn barod yn yr eglwys gyfriniol yma ag ydym wedi dweyd yn barod am dani. Mae yr Eglwys yn gwarantu pobpeth, y Beibl yn gystal â phethau ereill. Yr Eglwys ddwyfol ysprydoledig a wyliodd dros gynnyrchiad, ac, i arfer gair diweddar, a fu yn olygydd ar y Testament Newydd. Ond os gofynwch chwi i Brotestant o'r dosparth cyffredin, 'rwyf yn meddwl y bydd ef yn analluog i ddweyd wrthych beth sydd yn gwarantu y Beibl, os nad yw e' yn gwarantu ei hunan. Mae efe yn myned am ei syniadau mewn perthynas i'r Eglwys at y Beibl; mae y Roman Catholic yn myned am ei warant o'r Beibl at yr Eglwys; ac nid wyf yn petruso dweyd, ac edrych ar y pwnc oddiar bob safle hanesyddol ac athronyddol, mai y diweddaf yw y ffordd fwyaf rhesymol.

Yn awr, mae y Testament Newydd,—ac er mwyn symledd yr ymresymiad gadawn yr Hen Destament yn bresenol,—yn gynnwysedig o nifer o lyfrau. Sut ydych chwi yn gwybod mai y llyfrau hyny yn gywir, ac nid un llyfr arall, sydd wedi eu hysprydoli yn anffaeledig? Mae'n eithaf tebyg nad yw darllenwyr cyffredin yr Ysgrythyrau yn gwybod fod terfynau yr hyn a elwir yn *ganon* y Testament Newydd, wedi bod heb eu gosod i lawr o gwbl am oddeutu tri chant o flynyddau. Bu yn bwnc dadl am hir amser, pa un a ddylai yr Epistol at yr

Hebreaid gael ei gynnwys neu beidio yn y Testament Newydd, ac yr oedd Llyfr y Dadguddiad, llyfr nad oedd llawer o ffafr yn cael ei ddangos iddo gan un dosparth neillduol o'r Cristionogion boreuol, yn yr un sefyllfa. Ac mae yn hynod nad yw y llawysgrifau henaf o'r Testament Newydd, fel ag y maent genym ni yn awr, yn cyduno i osod yr un terfynau i'r casgliad. Mae llawysgrif fawr y Vatican yn gadael allan Epistolau bugeiliol Paul a'r Dadguddiad. Cynnwysa y llawysgrif Alexandraidd, un o drysorau mwyaf gwerthfawr y British Museum, ddau o Epistolau Clement o Rufain. Mae y llawysgrif Sinaitaidd, a ddarganfyddwyd yn ddiweddar gan Dr. Tischendorf dan amgylchiadau rhyfeddol yn Mynachlog St. Catherine, ar fynydd Sinai, yr hon sydd o'r gwerth a'r hynafiaeth mwyaf, yn cynnwys Epistol Barnabas a rhan o'r Bugail o Hermas, llyfr y mae'n ddigon tebyg sydd yn anadnabyddus i'r rhan fwyaf ond duwinyddion proffesedig. Felly yr oedd yn eithaf possibl ar unrhyw bryd yn ystod y tair canrif gyntaf i'r Dadguddiad neu yr Epistol at yr Hebreaid i gael ei daflu allan o'r Beibl, ac mor bossibl a hyny i'r Bugail o Hermas fod yn un o lyfrau'r Beibl. Mae'r holl ffeithiau hyn ag ydynt yn eithaf adnabyddus i feirniaid Beiblaidd, yn hollol groes i'r meddylddrych o Destament Newydd fel llyfr perffaith, heb ynddo na "brycheuyn na chrychni." Y ffaith yw fod y llyfrau hyn wedi tyfu i fyny o un i un yn yr Eglwys foreu Gristionogol, yn gymhwys fel mae llenyddiaeth yn ein hamser ni: fod y Cristionogion boreuol wedi derbyn y llyfrau hyny a ymddangosent iddynt hwy fel yn cofnodi yn fwyaf cywir y ffeithiau a ddymunent eu cadw, ac a ystyrient yn fwyaf addas i ddylanwadu er lles ar eu calonau a'u meddyliau; ac fod y llyfrau ereill ag oedd yn eu hymyl, megys Epistol Barnabas, Epistol Clement, Bugail o Hermas, ac un neu ddau arall sydd wedi dyfod i lawr i ni, a llawer ag sydd ar goll, wedi darfod yn raddol i gael eu hystyried gan Gristionogion gyda pharch ac anrhydedd. Gofynwch i'r Roman Catholic etto sut mae efe yn gwybod fod genym ni yn awr yn ein Beibl y llyfrau ysprydoledig, ac mai dim ond y llyfrau anysprydoledig sydd wedi myned o'r golwg, ac fe ddywed wrthych mai yr Eglwys ysprydoledig a ffurfiodd ganon yr Ysgrythyrau; ond nid yw y Protestant feallai yn credu mewn Eglwys wedi ei hysprydoli yn wyrthiol, ac o ganlyniad mae'n rhwymedig i ddweyd mai synwyr cyffredin, teimlad Cristionogol yr Eglwys foreuol a ddetholodd y llyfrau yma yn hytrach nag ereill. Felly hefyd yr wyf fi yn credu y bu; ond mae y fath syniad yn hollol wrthwynebol i'r meddylddrych o gasgliad o lyfrau, nad yw yn gasgliad o lyfrau yn unrhyw ystyr gyffredin o'r gair, ond yn wyrth amlwg a pharhaus, yn beth nad oes dim tebyg iddo yn holl hanes llenyddiaeth y byd.

Yn nesaf, os yw y Beibl i gael ei gymmeryd yn yr ystyr yma fel llyfr wedi ei ysprydoli yn wyrthiol, pob gair o hono yn wir—yn anffaeledig mewn materion hanesyddol, athronyddol a gwyddorol, neu mewn pethau crefyddol yn unig, yr wyf am ddangos gyda phob parch priodol na fu llyfr erioed yn llai llwyddiannus i ateb ei bwrpas. Nid yw yn gymhwys i fod yn awdurdod wedi ei hysprydoli yn anffaeledig,

am y rheswm syml nad yw, fel mae dynion yn ei esponio yn ymarferol, yn gysson yn ei dystiolaeth. Mae cynnrychiolwyr gwahanol eglwysi yn dweyd fod eu hathrawiaeth hwy, eu golygiadau hwy ar lywodraeth eglwysig yn cael eu hattegu yn y Beibl. Mae Eglwys Rhufain yn cael yn y Beibl athrawiaeth gwir bresenoldeb Crist yn y cymmun; Luther, Hooker a Zwingli, bob un o honynt yn cael ei athrawiaeth neillduol ei hun yn wahanol oddiwrth yr un uchod. Dyma bedwar yn appelio at awdurdod y Beibl ar bwnc eglur iawn, ac mae pob un yn cael ateb gwahanol. Mae yr esgobwr yn eithaf sicr fod esgobion, offeiriaid, a diaconiaid yn cael eu gorchymyn yn awdurdodol yn y Testament Newydd; mae y Presbyteriaid yn gwbl mor sicr fod yr un peth yn wir am gymmanfaoedd, synodau, a henaduriaethau; tra mae yr Annibynwyr yn myned at yr un ffynnonell o awdurdod, ac yn dyfod yn ol gyda'r gosodiad, fod esgobion a henaduriaethau yn hollol annghydweddol ag yspryd y llyfr, ac y dylai pob eglwys sefyll ar ei sylfaen ei hun. Ni fu erioed un athrawiaeth, pa mor afresymol, neu anfoesol bynag y byddo nad yw dynion wedi gweled amddiffyn iddi yn yr Ysgrythyrau. Cafodd Ludovic Muggleton allan yn y Beibl fod gan Dduw gorff a nwydau dynol fel ni ein hunain, ac mae'r Mormoniaid yn bresenol yn dweyd, ar ol appelio at Solomon, mai amlwreigaeth yw athrawiaeth yr Ysgrythyrau, ac mai hwy yn unig yw y gwir ysgolheigion a chredinwyr Beiblaidd. Ydwyf fi ddim yn cyfiawnhau y pethau yma, ond yr wyf yn gofyn a ydyw awdurdod nad yw yn rhoddi tystiolaeth sicr, ar yr hon mae pob amrywiaeth a phob hynodrwydd o gred Gristionogol yn cael eu dal i fyny —a ydyw yn cyflawni ei swydd fel oracl anffaeledig y gwirionedd. Yr wyf wedi meddwl bob amser nid yn unig mewn gwyddor ond mewn duwinyddiaeth, nad oes dim yn well na glynu wrth ffeithiau. Yr wyf yn cael fod y Beibl yn rhywbeth gwahanol iawn oddiwrth yr awdurdod anffaeledig yma; ac yr wyf yn meddwl mai dyledswydd gwir dduwioldeb yw, nid gwneyd y Beibl yr hyn a ddymunwn ni iddo fod, ond ei gymmeryd fel mae Duw wedi ei roddi i ni. Yr wyf yn credu fod y Beibl y rhodd oreu o eiddo Duw i ddyn, ac yr wyf yn dweyd yn onest mai peth annuwiol a ffol yw ymdrechu *twisto* ei rodd ef i rywbeth hollol wahanol oddiwrth yr hyn mae ei holl ffurfiad, ei holl hanes yn tystiolaethu ei fod. Beth ddywedech chwi, pe byddai dynion yn cael allan ar unwaith nad yw y ffynnonau gloyw o ddwfr ydynt yn aml yn y wlad hon yn dda i ddim, ond i gludo aflendid ymaith a golchi ffosydd, ac mai y peth iawn yw trosglwyddo dwfr y môr o Gaerdydd ac Abertawe, gosod i fyny *ddistilleries* mawrion yn Aberdar a Merthyr, ac yn y modd hyny wneuthur rhywbeth tebyg i ddwfr ffres o hono? Byddech yn barod i ddweyd—y fath ffolineb mewn dynion i gamddefnyddio rhoddion da Duw yn y fath fodd; dyna y môr mawr annherfynol sydd yn chwyddo ac yn treiglo am byth ar ein traethoedd ni, wedi fwriadu i fod yn dramwyfa y cenedloedd, ac i lanhau a phuro y byd materol, a thrwy hyny cyflawni mil o swyddi daionus yn nghreadigaeth Duw; adawa dynion ddim o hono yn llonydd i gyflawni y swyddi hyny os gallant, ond mae'n rhaid iddynt ei yfed, er

nad yw wedi ei fwriadu erioed at hyny! 'Rwyf fi yn myned at y Beibl fel cofnodiad naturiol gorchwyliaethau Duw at ran neillduol o'i blant am ganoedd o flynyddau. 'Rwyf yn gweled bywyd Duw mewn cyssylltiad a bywyd dyn yn fwy amlwg yno nag mewn un man arall; 'rwyf yn ei weled yn cynnorthwyo, yn rhybuddio, yn cyssuro ei weision trwy holl amrywiaethau a chyfnewidiadau y bywyd dynol; 'rwyf yn gweled yno fel pe byddai deddfau cyffredinol Rhagluniaeth ddwyfol wedi eu tynu allan mewn rhes o engreifftiau rhyfeddol; 'rwyf yn dyfod i lawr at y Testament Newydd, ac yn gwrandaw yno ar eiriau Iesu Grist, ydynt yn treiddio fy holl galon ac yn peru i mi deimlo na "lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn;" 'rwyf yn clywed gwirioneddau ydynt ar ol unwaith gael eu cymmeryd i mewn i'm calon a'm henaid yn dyfod yn ddirgelwch fy mywyd, ac yn gyfnerthiad fy ymdrechion byth ar ol hyny; 'rwyf yn sylwi sut mae dynion a geisient ganlyn yn llwybrau Crist wedi cyflawni pethau mawr dros Dduw a thros ddyn; ac yna gofynir arnaf i gymmeryd y môr mawr rhydd yma o gyssur a dyddanwch dwyfol, a'i gymhwyso at amcanion isel dadleuon duwinyddol, ar gyfer yr hyn ni fwriadwyd ef erioed. Mae'n lyfr o fywyd ac mae dynion am ei wneyd yn lyfr o oraclau. Cadwch a defnyddiwch ef fel y mae mewn gwirionedd, ac ni fydd un gallu byth mor gryf ag ef er daioni yn hanes dyn. Treiwch ei wneyd yr hyn nad yw, defnyddiwch ei osodiadau i rwymo y gwirionedd ac i gadwyno rhyddymofyniad, ac fe wnewch yr hyn mae'r eglwysi wedi bod yn wneyd fel mae gwaethaf y modd am ganoedd o flynyddau, ac fe lwyddwch i iselhau y Beibl yn ngolwg dynion, a chyda'r amcanion goreu i hyrwyddo ei anrhydedd a'i ddylanwad wnewch chwi ddim ond peru iddynt golli eu parch yn gyfangwbl tuag ato.

'Rwyf yn credu fod dyddiau dylanwad mawr yr Ysgrythyrau etto i ddyfod. Cyhyd ag y parhâ dynion i ystyried yr Ysgrythyrau sanctaidd fel wedi eu rhwymo i fyny mewn un unoliaeth wyrthiol, i ddyfynu adnod o Genesis ochr yn ochr ag adnod o'r Dadguddiad, ac i osod un o ymadroddion mwyaf ysprydol Crist ar yr un tir ag un o ddiarebion mwyaf bydol Solomon, yr unig ganlyniad ag sydd yn bossibl yw yr hyn a gyfeiriais ato yn barod. Mae'n hawdd i unrhyw ddyn diragfarn i weled fod yn y Beibl dyfiant graddol mewn duwinyddiaeth a moesau; ei fod yn dechreu gyda Duw sydd yn rhodio yn yr ardd gydag awel y dydd, yn siarad ag Adda mewn llais clywadwy, yn cuddio Moses yn hollt y graig, er mwyn i'r prophwyd weled ei gefn yn unig, yn gorchymyn lladdiad creulawn y Canaaneaid, y rhai oeddent ar ol y cwbl yn gwneyd dim ond amddiffyn eu haelwydydd a'u cartrefleoedd, yn gymhwys fel y gwnaem ni yfory pe byddai rhyw elyn yn tirio yn Nghymru ac yn ymosod arnom. 'Rwyf yn dweyd ei fod yn dechreu gyda Duw fel hwn, ac mae yn myned yn mlaen at y Duw ysprydol ag y dynesai Dafydd ac Isaiah ato mewn ymadroddion na fyddant byth farw, a'r rhai ydynt yn parhau yn gerddoriaeth pob calon dduwiol hyd y dydd hwn, fel y goleuni yn myned yn ëangach ac yn ddysgleirach "hyd ganol dydd" nes yn y diwedd y dadguddir i ni Dduw a wnaeth o un gwaed, bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear—y Duw

sydd yn gwlawio ar y cyfiawn a'r annghyfiawn, ac yn peru i'w haul godi ar y drwg a'r da. Yn awr, a chydnabod y dadblygiad hwn, a chydnabod fod y wybodaeth am Dduw, o bennodau cyntaf Genesis i'r Efengylau yn cynnyddu, yn ymddysgleirio ac yn ymëangu, mae pob peth yn hawdd ei ddeall ac yn llawn o'r addysg mwyaf gwerthfawr, ond os ydych yn parhau i ddweyd mae'r un yw Duw Iesu Grist, Tad cyffredinol ei holl blant, a'r Duw a orchymynodd i Samuel i ddarnio Agag o flaen yr Arglwydd, a'r hwn y dywedir ei fod wedi canmawl trwy enau Deborah lofruddiaeth frwnt a chowardaidd Sisera gan y wraig hono o Israel, amddiffyn yr hon yr oedd wedi geisio gan ymddiried yn arferion mwyaf cyssegredig bywyd yn y dwyrain, yna yr wyf yn dweyd eich bod yn dinystrio yn gyfangwbl bob syniad moesol o Dduw, ac ni ellwch mwyach gael dyfodfa at y Bôd Dwyfol trwy deimladau puraf eich cydwybodau eich hunain.

C. B. L.

DUWIOLDEB YMARFEROL.

Un o arwyddion mwyaf dymunol a gobeithiol y dyddiau presenol yw, fod materion gwladol a chrefyddol yn cael eu gwerthfawrogi yn gydraddol i'w dylanwad ymarferol ar gymdeithas. Wedi ein holl ddadleuon a'n hymrafaelion, y mae elfenau bywyd gwir Gristionogol yn cael eu dadblygu fwy-fwy yn mhlith yr eglwysi. Y mae y wasg yn gystal a'r pulpud, os nad ydym ni yn camsynied yn fawr iawn, yn codi eu llef, a hono yn llef nerthol, o du duwioldeb neu grefydd ymarferol, bur, a dihalogedig. Y mae llawer i bregethwr yn adseinio mwy yn y dyddiau presenol nag yn y dyddiau gynt eiriau un o'n brodyr yn Eglwys Waddoledig ein gwlad—pa hyd y bydd y cyssylltiad* sydd yn bodoli rhyngddi a'r wladwriaeth i barhau felly ni allwn ni ddim rhagddweyd yn union; ond, ar yr un pryd, a barnu wrth arwyddion yr amserau, gallem feddwl fod yr amser yn cyflym agoshau pryd y bydd holl ddeiliaid Prydain Fawr, yn sefyll ar yr un safle o gydraddoldeb crefyddol. Y mae ymdrechiadau egniol yn cael eu gwneyd yn y dyddiau presenol gan Henry Richard a lluaws ereill o ddynion dewr a goleuedig i effeithio hyny, ac nis gallwn ni lai na dymuno Duw yn rhwydd iddynt yn eu hymdrechiadau i ddymchwelyd yr hyn a ystyriwn ni yn annhegwch ac annghyfiawnder i'r Annghyddffurfwyr a phob dyn sydd yn caru gonestrwydd cydwybodol a rhyddymofyniad.

---

* Dywedai Canon Liddon yn ddiweddar iawn mai y cam cyntaf tuag at y dadgyssylltiad yw y *Public Worship Regulation Bill*; ond y mae y Canon, bid sicr, yn camsyniad: y mae llawer cam wedi cael ei roddi at hyn cyn i Archesgob Canterbury freuddwydio am y *Bill* yma.

Mewn un ystyr, nid arianol, y mae un neu ragor o bleidiau yr Eglwys uchod yn y dyddiau presenol yn debyg i'r Annghydffurfwyr, sef eu bod, medd y blaid wrthwynebol, yn cael eu dyoddef er wedi troseddu ei chyfreithiau. Y mae yr uchel-eglwyswyr yn ymosod yn feiddgar ar yr isel-eglwyswyr, ac y mae'r *Broad Church* yn bur ddigyffro a didwrw; ond ni fedrwn ni gyhoeddi barn, fel ag y mae ein callach a'n doethach wedi methu o'n blaen, gyda golwg ar ba ddwy o'r gwahanol bleidiau sydd yn cael eu goddef, a hyny am fod pob un o honynt yn eithaf sicr yn ei meddwl ei hun mai hi sydd iawn-ffyddiog; ond pe tynid arian a nawdd yr ystad oddiwrth bob un o honynt, efallai y caniateid i'r holl aelodau yn mhob un o honynt i farnu drostynt eu hunain yn nghylch beth sydd iawn a pheth sydd gyfeiliornus, ac yna buasai mwy o amrywiaeth barn, pe yn bossibl, yn eu plith nag sydd yn bresenol. Ond ar yr un pryd, ni allwn ni ddim llai na chredu y buasai lles mawr yn deilliaw oddiwrth hyny; buasai mwy o wir fywyd yn ffynu yn eu plith nag y sydd yn bresenol. Yn lle meddwl am y ffordd fwyaf effeithiol i ddarostwng eu gilydd, buasent yn fwy unol yn eu hymdrechiadau i ymlid pob drwg o'r byd a sefydlu pob daioni. Yn lle ymryson yn nghylch yr allanol neu y cysgod, buasent, gallem feddwl, yn meddwl am y sylwedd, neu wirionedd a chariad,—ïe, llai am rith crefydd, a mwy am dduwioldeb ymarferol. Bellach at eiriau y brawd y cyfeiriwyd uchod atto:—"Yr ydym yn ymofyn Cristionogaeth ynoch sydd yn Gristionogol dros y bwrdd masnachol, dros fyrddau ciniaw, tucefn i gymmydog fel yn ei wyneb. Yr ydym yn ymofyn Cristionogaeth a allwn ei gweled mewn cymmedroldeb, mewn gwisg weddus, mewn awdurdod, mewn hawddgarwch a serchawgrwydd gartref, mewn gwirionedd a symlrwydd ar faes y byd yn gystal ag yn yr eglwys." Arferai Rowland Hill, mae'n debyg, ddywedyd na feddyliai ef ond ychydig am grefydd y dyn hwnw na fuasai ei gi a'i gath yn well o'i phlegyd. Y mae yn bossibl fod llawer o ddarllenwyr presenol yr YMOFYNYDD yn cofio fod y diweddar Barchedig Titus Evans, Caerfyrddin, yn dweyd yn agos iawn yr un peth pan bregethai oddiar y geiriau, "Canys duwioldeb sydd fuddiol i bob peth," &c. Dywedai ef lawer iawn o bethau pur ffraeth—pethau a barai i'w wrandawyr wenu ar rai prydiau; ond nid llai pwrpasol, dyddorol, ac addysgiadol oeddynt er hyny. Ni wyddom ni ddim paham na buasai rhai o'n pregethwyr yn cymmysgu mwy nag a wnant o'r digrifol gyda'r difrifol. Y mae yn ddios fod y gwrandawyr yn amrywio yn eu chwaeth, ac ni allwn ni lai na meddwl y dylid ymdrechu rhoddi maeth priodol i'r naill yn gystal a'r llall, fel y byddis trwy hyny i'w hadeiladu mewn pethau sylweddol yn fwy effeithiol na thrwy chwareu ar y tant llwfr o hyd. Yn hyn efallai i raddau y gorwedd dirgelwch llwyddiant pregethwr mwyaf dylanwadol America, os nid yr holl fyd adnabyddus, y dyddiau yma, sef Henry Ward Beecher.

Maddeued y darllenydd ni am ein bod unwaith etto wedi tori ar stori y cyfaill ydym wedi cyfeirio atto. Wele ragor o'i eiriau:—"Yr ydym yn gofyn llai o siarad a mwy o wneyd, llai o gnoi a thraflyncu, rhagfarn a phenboethni crefyddol. Gyda golwg i wneyd ein mesurau

a'n sefydliadau crefyddol o bob math yn fwy effeithiol er daioni, gofynol yw iddynt gael eu gweithio allan gyda mwy o deimlad o'r iawn, mwy o anrhydedd heb gyfrwysdra neu bartiaeth. Dylai y llaw sydd yn cyfranu bara y bywyd fod yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd. Dylai yr arian sydd yn cael eu hanfon i'r cennadon mewn gwledydd tramor gael eu hennill yn onest. Mewn gair, angenrhaid yw i ddwy golofn yr eglwys—cyfiawnder a thrugaredd—gael eu hestyn allan i gofleidio eu gilydd, i weithio allan les dyn, ac i gadarnhau y brodyr; ac os na wneir felly, y mae eich ffydd yn ofer; yr ydych etto yn eich pechod."

Yn yr un yspryd y mae ysgrifenwr yn un o gyhoeddiadau yr enwadau poblogaidd yn llefaru pan yn siarad am wir safon daioni moesol. Yn ei ddesgrifiad o Gristion, dywed,—

"Os yw dyn yn Gristion, yna y mae yn ddyn geirwir—yn ddyn ag y gellir ymddibynu ar ei air. Cyflawna ei addewidion gyda ffyddlondeb. Creda fod ei ddarluniadau o gymmeriadau ei gyd-ddynion yn berffaith gywir. Y mae ganddo ormod o olwg ar y gwirionedd i'w aberthu ar allor mammon. Nid yw yn siarad yn ddiystyrllyd am neb heb raid ac achos cyfiawn—dim ond pan y mae cyfiawnder, lles a dyogelwch y gymdeithas ddynol yn gofyn. 'Y neb a ddywedo y gwir, a ddengys gyfiawnder; ond gau dyst a draetha dwyll.' 'Tyst ffyddlon ni ddywed gelwydd; ond gau dyst a draetha gelwyddau.'

"Os yw dyn yn Gristion, y mae yn ddyn gonest. Gwell ganddo wneyd cam ag ef ei hunan nag â neb arall. Gan nad yn mha nwydd y mae yn masnachu, gellir ymddibynu ei fod yn deg yn ei drafodaeth, yn uniawn ac anrhydeddus. 'Darperwch bethau gonest yn ngolwg pob dyn.' 'Uniondeb yw llwybr y cyfiawn.'

"Os yw dyn yn Gristion, yna y mae yn ddyn gostyngedig. Y mae yn meddwl am ei anmherffeithderau ei hunan yn y fath fodd ag i beri iddo fod yn ostyngedig o galon, ac i gydnabod ei ymddibyniad ar Dduw, a'i gyfrifoldeb iddo, ac i ystyried y cyfoethocaf a'r tlotaf fel dynion a brodyr teilwng o gariad ein Gwaredwr, a theilwng hefyd o sylw a pharch dyledus oddiwrth ddynion. Nid yw yn siarad yn isel ac yn ddirmygus am y sawl mae yn gwybod eu bod wedi eu goddiweddyd gan ryw fai; ond yn hytrach cydymdeimla â'r cyfryw, ac yngana air o gyssur, o heddwch, a thangnefedd yn eu clustiau. 'Y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion; ond yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.'

"Os yw dyn yn Gristion, yna y mae yn gariadus. Y mae yn teimlo dyddordeb yn ei gymmydogion, ac y mae yn siarad gair cariadus a serchog wrth bawb a gyfarfyddant ag ef. Ymdrecha ddwyn oddiamgylch ddaioni a dedwyddwch i'r sawl y mae yn cymdeithasu â hwynt. Y mae ei galon wresog ac haelionus yn llawenhau yn llawenydd ereill. Y mae yn priodoli cymhelliadau iawn, pur, ac anhunanol i'r rhai sydd yn cyflawni gweithredoedd da, yn hytrach na'r gwrthwyneb. Gan ei fod yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn agored i syrthio, neu ymollwng gyda themtasiynau er drwg ei hunan, ystyria ac edrycha ar ffaeleddau ei gyd-ddynion yn y goleu mwyaf ffafriol, a bydd yn annghydmarol well ganddo i dosturio wrth y cyfryw na'u tynghedu i Satan; bydd

yn fwy parod i adferu y cyfryw at rinwedd a daioni nag i'w barnu a'u condemnio. Y mae y geiriau yma wedi cael eu hargraff ddyladwy ar ei feddwl, sef, 'Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist.' 'Y mae cariad yn hirymaros, yn gymmwynasgar, * * * nid yw lawen am annghyfiawnder, ond cydlawenhau y mae â'r gwirionedd.' Y mae yn porthi y newynog, yn dilladu y noeth yn ol ei allu, ac yn ymweled â'r claf. Agora gwasgfeuon dynol ei law a'i galon. Nid yw y cam mae wedi gael oddiar ddwylaw ereill yn llidio ei galon, yn cynneu tân cenfigen a malais ynddi, ac yn peri iddo awyddu am gyfleusdra i ddial ei lid arno, ac i afaelyd yn mhob cyfleusdra i wneyd felly. Y mae y geiriau yma wedi cael eu hargraff ddyladwy ar ei feddwl, 'Oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad nefol eich camweddau chwithau.' Y mae clefydau ysprydol dynolryw yn creu tosturi yn ei enaid, ac awydd i'w hysgafnhau a'i symmud ymaith â'i ddylanwad da, yn gystal ag â'i eiddo a'i amser.

"Os yw dyn yn Gristion, y mae yn ddyn duwiol—ymarferol felly. Y mae yn ofni ac yn caru Duw, ac yn gwneuthur Ei Air yn llusern i'w draed, ac yn llewyrch i'w lwybrau. Agosha ger ei fron mewn gweddi, a thra y mae ereill yn byw megys heb Dduw yn y byd, y mae ef yn ymdrechu rhyngu ei fodd, ac yn ei ogoneddu yn ei holl gyflawniadau. Y mae yn dal cymmundeb melus a nefol ag Ef mewn gweddi, yr hyn sydd yn ei nerthu i gyflawni ei holl ddyledswyddau gyda'r sirioldeb a'r boddlonrwydd mwyaf. Peth ymarferol yw ei dduwioldeb."

"Bwyf megys hwn, fy nefol Ri,
A'm holl ymarwedd ynot ti."

Y. L. E. G.

GOBAITH.

"Gobeithiaf ac nid ofnaf, canys Duw yw fy nerth."—ESAY.

DYNA yw teimlad pob dyn rhinweddol sydd wedi cael adnabyddiaeth ond anmherffaith ar ffyrdd Duw, a dyma gyflwr meddwl ag y mae yr enaid duwiol yn hiraethu am gyrhaedd. Byddai yn dda i bob dyn ymdrechu ei feddiannu. Peth hyfryd fyddai gweled Duw yn ei ragluniaeth yn ein cynnal, a theimlo yn mhob cyflwr ei fod i ni yn Waredwr hawdd ei gael, a'i fod yn rhoddi nerth i sefyll mewn cyfyngder, fel y gallom obeithio, ac nid ofni, pan mae helbulon yn ein cyfarfod. Braint fawr fyddai cael nerth mewn trallod i obeithio ac nid ofni. Mae yn stâd hapus, ond ni ellir ei chyrhaedd heb ddwfn fyfyrdod ar briodoleddau Duw, a gradd uchel o adnabyddiaeth o'i lywodraeth. Cyn cael y gobaith a'r ffydd yma yn Nuw, mae'n rhaid ei weled yn gweinyddu cyfiawnder, uniondeb, a barn ar y ddaear. Tueddir dyn

yn aml i ofni yn lle gobeithio yn ffyddiog fod Duw yn Waredwr iddo. Cyferfydd â llawer o gyfyngderau yn y rhai ni wel un ymwared, a hyny weithiau pan fyddo gwaredigaeth yn ei ymyl. Dyna'r pryd mae eisiau gobaith yn lle ofn. Mae Paul yn dweyd wrth y Rhufeiniaid, "Trwy obaith y'n hiachawyd ni. Eithr y gobaith a welir nid yw obaith; oblegyd y peth y mae un yn ei weled, i ba beth y mae etto yn gobeithio? Ond os ydym yn gobeithio yr hyn nid ydym yn ei weled, yr ydym trwy amynedd yn dysgwyl am dano." Dyma'r gobaith sydd eisiau arnom pan mae yr awyrgylch wedi tywyllu o'n hamgylch, dyma'r gobaith sydd eisiau pan y cyfarfyddom â stormydd blinion bywyd, pan na welir un arwydd o ymwared o un cyfeiriad yn dyfod. Bryd hyn y mae eisiau gobeithio yr hyn nid ydym yn ei weled, a thrwy amynedd ddysgwyl am dano. Nid oes un peth yn fwy naturiol i ddyn nâ gobaith. Ac wrth edrych ar ei fywyd, a'r amrywiol brofedigaethau a gyfarfyddant ag ef yn ystod yr amser byr y mae yn y byd, gwelir nad oes dim yn fwy angenrheidiol i'w hapusrwydd. Byddai bywyd heb obaith yn faich, yn orthrymder rhy drwm i'w ddwyn. Suddai dynion dan ofidiau oni bai fod gobaith yn eu nerthu, yn codi eu meddwl i ddisgwyl amser gwell. Dymuniad yw gobaith am ryw ddaioni ag mae sail i gredu y gellir o leiaf ei gyrhaedd, o herwydd ei fod yn beth cyrhaeddadwy. Mae y gobaith sydd wedi ei sefydlu ar y sylfaen hon yn codi y meddwl gwan pan ar suddo gan flinder, ac yn ei dawelu yn y cyfyngder mwyaf. Mae gobaith yn nerthu ei berchenog yn ol graddau y tebygolrwydd y caiff feddiannu yr hyn y gobeithia am dano. Mae gobeithion dynion yn amrywio llawer, a seiliau eu gobeithion yn amrywio hefyd, pan yn dysgwyl am yr un pethau i ddyfod. Mae dynion yn amrywio yn eu ffordd o weithredu pan yn ymestyn i gyrhaedd yr un amcan, ac mae pob un yn ei drefn neu ei ffordd ei hun hefyd yn llwyddo. Mae dynion hefyd yn amrywio yn eu gobeithion am bethau tymhorol, maent yn amrywio yn eu gobeithion am bethau ysprydol, ac yn sefydlu eu gobaith ar seiliau gwahanol. Etto trwy ffydd a gobaith yr â dynion trwy'r byd, ac mae yn rhaid cael cyfran o honynt cyn cyflawni gwahanol orchwylion bywyd. Trwy ffydd yr â y morwr i'w fordaith bell—ffydd yn ei lestr ei bod yn ddigon cadarn i wynebu y tonau geirwon. Ymddirieda yn nghywirdeb ei gwmpas a'i *charts* i'w dywys ar hyd y dyfroedd dilwybr, ac yn ei allu ei hunan i'w defnyddio i arwain ei long i'r porthladd yn ddyogel. Trwy ei ofal a'i fedrusrydd ei hunan, a chydweithrediad yr elfenau, y gwynt, trai a llanw y môr, mae yn gobeithio y caiff ddychwelyd yn ol yn ddyogel i fynwes ei deulu. A'r un gobaith sydd yn cynnal ei briod a'i blant yn ei absenoldeb—gobaith y cânt ei dderbyn yn ol yn iach. Fel hyn mae gan ddyn ei obeithion tymhorol wedi eu gosod ar sail safadwy, ei brofiad ei hunan a thystiolaeth ereill. A yr hauwr i'r maes yn ffyddiog i hau; tafla yr hadau i'r tir heb un amheuon yn cymmylu ei feddwl. Os bydd wedi trin y tir yn iawn, ac os bydd yr had yn dda, gadawa ef i ofal Awdwr natur i dderbyn y cynnar a'r diweddar wlaw, ac erys yn amyneddgar hyd amser cynauaf mewn gobaith am gnwd toreithiog o ŷd am ei lafur. Mae ganddo sail i obeithio, canys mae

Duw yn peri i'r haul i godi a thaflu gwres ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r annghyfiawn. Gobeithia y naill fel y llall am iechyd, am lwyddiant yn eu hanturiaethau, a phob cyssuron, a chânt eu mwynhau yn gydradd gan ddaioni anfeidrol Duw. Ca pob un dderbyn yn ol fel y byddo wedi llafurio mewn pethau tymhorol a phethau ysprydol. Os hau yn brin, prin fydd y medi. Mae y dyn sydd yn cyfyngu ei obeithion i'r bywyd hwn, pan ballo trysorau amser, yn colli y cwbl. Unwaith y byddo gwenau'r byd wedi cefnu arno, mae yn colli ei holl gyssuron. Mae heb obaith ganddo, ac heb Dduw i gyflwyno ei enaid i'w ofal yn ei drallod. Nid oes ganddo le i droi ei wyneb am ymwared. Nid yw y byd iddo ef mwy ond anialwch dyryslyd, yn llawn o ofnau a pheryglon. Os metha eu gobeithion tymhorol, gallwn ddweyd fel Paul mai y truenusaf o bawb yw y rhai a ymddiriedant yn y byd hwn am eu prif fwynhad. Siomedig yw y byd ar y goreu. Ofer yw ymddiried mewn dyn ar lawer achlysur. Mae weithiau yn gomedd cynnorthwyo mewn angen pan y gallo; yn fynychach, fe ddichon, yn ewyllysio rhoi help llaw, ond yn analluog. Byddai yn dda i ni gofio nad yw "braich o gnawd ond cymhorth tylawd" mewn aflwydd; a phan "ballo helpwyr o bob rhyw, mai'n help digonol ni yw Duw."

Mae yn un o lythyrau Dr. Priestley at gyfaill iddo ar farwolaeth ei wraig sylw gwerth ei gofio :—" Fy anwyl gyfaill," meddai, " Ni fum i erioed yn sefyll mewn mwy o angen cyfeillach hen gyfeillion duwiol a phrofedig nag yr wyf yn awr yma (America). Ac yr wyf yn wir ddiolchgar am nad wyf yn ymddifad o honynt. Er y gallwn ddymuno cymdeithas agosach a hen gyfeillion duwiol a phrofedig. Wedi y cyfan, ein prif noddfa yw Duw, ac nis gall fod arall, Rhagluniaeth yr hwn nis gallwn amheu nad ydyw yn cael ei threfnu yn y modd goreu. At y Tad nefol yr â y Cristion mewn pob caledi. Pan fyddo y fam a'r tad yn gorfod edrych ar eu plentyn yn nychu gan afiechyd, maent yn gobeithio am ei wellhad tra fyddo y sail leiaf. A phan fyddo y gobaith hwn wedi methu a'r gymdeithas oedd mor anwyl wedi ei thori heb obaith cael ei hadnewyddu ar y ddaear, daw addewidion yr efengyl i godi eu golygon i wel'd a llygad ffydd y gymdeithas yn cael ei hadnewyddu mewn rhwymyn perffeithrwydd yn y nef. Dyna obaith gwynfydedig nas gall y byd eu hamddifadu o hono; dyna obaith sydd yn eu gwneyd yn fwy na choncwerwyr ar y byd a'i holl drafferthion. Er nad yw y Cristion yn rhydd oddiwrth ofidiau a galar, etto ymostynga yn dawel i ewyllys Duw ac edrycha tuhwnt i'r byd hwn am orphwysfa i'w enaid; rhodia wrth ffydd yn fynych, ïe, yn fynych iawn ac nid wrth olwg, cyfeiria ei olygon at Iesu Grist wedi gorchfygu angeu a'r bedd, ac wedi dwyn bywyd ac anfarwoldeb i'r goleuni. Mae yr Iesu iddo yn ffordd yn wirionedd ac yn fywyd. Seilia ei obaith am fywyd tragywyddol, y gobaith goreu o bob gobeithion, ar addewidion yr efengyl ac ufudd-dod i'w holl orchymynion. Pan goda y cwestiwn yn ei feddwl, beth raid iddo wneyd cyn cyrhaedd y cymhwysder angenrheidiol i etifeddu y bywyd hwn, cofia ateb Crist i'r dyn ieuanc pan ofynodd yr un gofyniad iddo, " mai cadw y gorchymynion yw yr

unig ammod a charu yr Arglwydd ein Duw a'r holl galon a'n cymmydog megys ein hunain."

G. R.

BYWYD.

Y MAE y rhan fwyaf yn cytuno fod bywyd yn hyfryd iawn, ac y mae pob creadur yn ei amddiffyn a'i gadw fel y peth mwyaf gwerthfawr a fedd; ond er mor hyfryd ac anwyl ydyw nid oes neb yn alluog i'w esbonio. Y mae dyn wedi bod yn alluog i ddarganfod llawer o bethau cywrain iawn ag sydd yn perthyn i'w *system*, megys cylchrediad y gwaed, y modd y mae yn treulio ei ymborth a'r cyffelyb; ond nid oes cyllell un meddyg wedi bod yn alluog i ddyfod i gyffyrddiad à bywyd hyd yn hyn. Y mae dechreuad bywyd yn guddiedig oddiwrthym etto.

Yn ol yr hanes sydd genym am y cread yn llyfr Genesis, gwnaeth bywyd ei ymddangosiad ar y blaned hon oddeutu chwe' mil o flynyddau yn ol; ond drwy gymhorth addysg, ac ymdrech di-ildio dysgedigion i gael allan y gwirionedd drwy gymharu gwahanol dudalenau yn llyfr natur yr ydys wedi dyfod i'r casgliad fod bywyd wedi ymddangos lawer iawn yn gynt. Clywais i weddillion dyn gael eu darganfod mewn rhan o'r America y gauaf diweddaf, y rhai a dybid eu bod wedi eu claddu yn y fan hono bumtheg mil a deugain o flynyddau yn ol o leiaf.

Y mae dynion yn tynu eu casgliadau am yr hyn oedd yn cymmeryd lle yn yr hen amser oddiar yr hyn sydd yn cymmeryd lle yn bresenol. Y mae y byd yma yn cael ei lywodraethu gan ddeddfau, y rhai a elwir *deddfau* natur; ac y mae yn ufuddhau i'r deddfau hyn gyda ffyddlondeb di-ymwad. Y mae y ddaear yn troi oddiamgylch yr haul yn awr gyda'r un cyssondeb a phan feiddiodd Copernicus, Galileo ac ereill, i fynegu i'r byd mai yr haul yw canolbwynt y bydysawd, ac nid y ddaear fel ag y credai yr henafiaid. Y mae olyniaeth y tymhorau hefyd yr un fath yn awr a chynt; ac y mae y gwahanol ddefnyddiau o'r rhai y mae y ddaear yma yn cael ei gwneuthur i fyny yn myned o dan yr un cyfnewidiadau cysson yn awr a phan ddarfu i ddyn dalu sylw gyntaf iddynt; ac wrth hyn gallwn gasglu eu bod yn gwneuthur felly cyn i ddyn dalu sylw iddynt. Yn y modd hwn y mae dynion yn alluog i ddarllen hanesiaeth yr hen oesau drwy dalu sylw i'r hyn sydd yn cymmeryd lle yn yr amser presenol. Y mae daearegwyr yn dweyd fod y ddaear wedi bod am filoedd lawer o oesau yn cael ei chyfaddasu ar gyfer bywyd. Bu y ddau allu mawr a nerthol yn natur—dwfr a tân—am gyfnodau yn chwalu ein byd ac yn gwneuthur darpariaeth er cynnal bywyd; a phan wnaeth ei ymddangosiad gyntaf yr oedd y creaduriaid yn wahanol iawn i'r rhai sydd yn byw yn ein hamser ni, fel ag y cesglir oddiwrth yr esgyrn a gweddillion ereill sydd yn cael eu darganfod yn barhaus.

Nid ydym yn gwybod a oes bywyd yn y planedau ereill ai peidio, ond hawdd genym gredu ei fod; oblegid ymddengys fod Duw yn creu pob peth er dedwyddwch ei greaduriaid byw; ac os nad oes bywyd yn "y bydoedd sydd uwch ben" yn awr dichon eu bod yn cael eu cyfaddasu ar ei gyfer, megys ag y bu ein byd ninau. Y mae seryddwyr yn dweyd fod gwahaniaeth mawr rhwng hinsawdd planedau ereill a'r blaned ar yr hon yr ydym ni yn byw. Y mae rhai o honynt yn eithafol boethach, ac ereill yn eithafol oerach. Dywed Syr Isaac Newton fod hinsawdd y blaned Wener yn saith waith poethach na hinsoddau poethion ein byd ni; ac y mae yr un eithafion o oerni yn perthyn i blanedau ereill. Y mae rhai o honynt yn amddifad o awyrgylch hefyd. Y mae dynion yn dyfod i'r casgliad hwn drwy eu bod yn sylwi nad oes dim cymmylau yn agos at y planedau hyny, a'r rheswm naturiol dros absenoldeb cymmylau yw nad oes dim awyr yno i'w cynnal. Y mae yn amlwg nas gall creaduriaid o'r un cyfansoddiadau a'r rhai a drigant yn ein byd ni fyw yn yr eithafion a nodwyd, yn enwedig byw heb awyr. Ond os oes creaduriaid byw a bodau rhesymol yn trigo yn y planedau cylchynol, diamheu eu bod wedi eu cyfaddasu yn eu creadigaeth at y lleoedd y maent yn byw ynddynt fel ag y mae gwahanol greaduriaid wedi eu cyfaddasu ar gyfer byw mewn gwahanol hinsoddau yn ein byd ni. Gan fod Duw wedi myned i'r fath drafferth, (os teilwng y sylw) i barotoi ein daear ni ar gyfer bywyd y mae yn drueni fod neb yn ei gamddefnyddio a chamddeall ei ddyben a'i werth.

Y mae dau fath o fywyd: bywyd llysieuol a bywyd anifeilaidd. Y mae y blaenaf yn cael ei lywodraethu gan ddeddfau natur, a'r olaf gan ddwy egwyddor, sef, *greddf* a *rhesum*. Yr anifeiliaid is-raddol sydd yn cael eu llywodraethu gan reddf; ac y mae yr egwyddor arall —rheswm yn perthyn i'r hil ddynol yn unig, yr hyn sydd yn gwneyd dyn yn berson; a chan fod rheswm yn uwch na greddf, yr ydym yn galw dyn yr hwn sydd fod rhesymol yn fod uwchraddol. Y mae greddf yn gweithio bob amser yn y tywyllwch, tra y mae rheswm yn gweithredu yn y goleuni. Greddf sydd yn dysgu yr aderyn i weithio ei nyth; ond nis gwyr yr aderyn bach y gradd lleiaf paham neu i ba ddyben y mae yn gweithio ei nyth: y mae mewn perffaith dywyllwch. Y mae greddf yn y modd hwn yn gweithio i amcan heb amcanu.

Nid oes dim cynnydd mewn greddf chwaith, tra y mae rheswm yn "myned yn y blaen o berffeithrwydd i berffeithrwydd." Yr oedd yr aderyn bach yn gweithio ei nyth yr un fath ac yn llawn cystal dair mil o flynyddau yn ol ag ydoedd y gwanwyn diweddaf; ac yr oedd y wenynen yn gweithio ei chwybr ac yn gosod ei mêl gyda'r un cywreinrwydd yn yr amseroedd boreuaf ag eleni; ac y mae yn berffaith hefyd, fel nas gellir byth wneyd ei well i ateb ei dyben hi. Yr oedd *philosopher* unwaith yn dweyd ei fod wedi cael *mistake* yn ngwaith y wenynen. Yr oedd yn dweyd fod gwall yn onglau y cwybr, ac y cadwai ragor o fêl pe y cai ei wneyd yn ol ei *blan* ef. Yn awr dyma ddadl rhwng *philosopher* à gwenynen. Dyma *philosopher* arall yn dyfod yn mlaen ac yn profi fod gwaith y wenynen yn hollol berffaith, ac mae ei gyd-*philosopher* oedd wedi gwneuthur camgymmeriad. Dyma wenynen

am unwaith wedi ennill y dydd ar *philosopher*. Tra y mae y frongoch fach wedi bod yn adeiladu ei nyth, a'r wenynen wedi bod yn ffurfio ei chwybr yr un fath drwy yr oesau, beth y mae dyn—creadur rhesymol wedi bod yn wneyd? Y mae wedi bod yn sefydlu ymerodraethau; y mae wedi bod yn adeiladu dinasoedd; y mae wedi bod yn adeiladu llongau y rhai ydynt fel palasdai mawrion ar wyneb yr eigion; y mae wedi bod yn darganfod cyfandiroedd; y mae wedi bod yn crogi pontydd uwch tonau aflonydd y môr; y mae wedi ieuo y dwfr a'r tân a'u gilydd fel dau farch porthiannus i'w gludo o fan i'w gilydd yn ffurf y *steam engine*; y mae wedi bod yn dofi "y fellten hoewaf wylltdaith" i gludo ei newyddion dros fynyddoedd a than gefnforoedd yn ffurf y *telegraphic wires*, y rhai ydynt fel *nerves* drwy gorff cymdeithas; y mae wedi bod yn darganfod y ffordd i lefaru a miloedd o dafodau drwy yr argraffwasg; y mae wedi bod yn darganfod bydoedd; yn taflu ei linyn mesur am yr haul, ei osod yn y dafol a'i bwyso fel pwys o siwgr. Gwelwn oddiwrth y pethau hyn a mil a mwy o bethau cyffelyb fod dyn —creadur rhesymol—yn myned ar gynnydd yn barhaus. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng deiliaid greddf a deiliaid rheswm yn y modd y maent yn dyogelu eu bywydau mewn amryw achosion. Y mae deiliaid rheswm yn amddiffyn eu bywydau oddiar brofiad, a rhybuddion oddiwrth eu cydryw. Mor ofalus y mae y tad a'r fam yn gorfod bod i ddysgu eu plant pa bethau sydd niweidiol iddynt, ac i gadw pethau peryglus oddiwrthynt; ac y mae y "*druggist*" yn gorfod ysgrifenu "gwenwyn" ar bob peth gwenwynig cyn y caiff fyned allan o'r *shop*. Ond nid felly gyda greddf yn ei pherffeithrwydd; a pha wylltaf a phellaf oddiwrth ddyn y byddo yr anifail mwyaf i gyd o dan ddylanwad greddf y mae. Er amled y llysiau gwenwynig sydd yn tyfu yn yr anialdiroedd, ac er nad oes gwenwyn wedi cael ei ysgrifenu ar un o honynt, etto nid oes genym hanes am anifeiliaid gwylltion byth yn cael eu gwenwyno.

Y mae deiliaid greddf yn iachach hefyd na deiliaid rheswm. Nid oes genym hanes fod pläau a chlefydau yn tori allan yn mysg anifeiliaid gwylltion byth. Dychymygwn fod greddf a rheswm yn cyfarfod â'u gilydd ryw ddiwrnod. Y mae rheswm yn gofyn i reddf: "Pa fodd y mae dy ddeiliaid di mor *iach* i gyd?" "Wel, mi a ddywedaf wrthyt," ebai greddf, "y mae fy neiliaid i yn derbyn eu cynnaliaeth yn uniongyrchol o lygad y ffynnon. 'Y cenawon llewod a ruant am ysglyfaeth, ac a geisiant eu bwyd gan Dduw. * * * A roddech iddynt a gasglant: agori dy law a diwellir hwynt â daioni.' 'Efe sydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant, ac i gywion y gigfran pan lefant.' 'Ystyriwch y brain, y rhai nid ydynt yn hau nac yn medi, nac yn cywain i'w hysguboriau, ac y mae Efe yn eu porthi hwynt.' Dyna paham y mae fy neiliaid i mor iach," ebai greddf, "y maent yn derbyn eu porthiant o lygad y ffynnon, a dyna lle y mae y dwfr buraf bob amser. Paham y mae dy ddeiliaid di mor afiach?" meddai greddf yn ol wrth reswm. "Mi a ddywedaf hyn wrthyt tithau," ebai rheswm, "y mae cymmaint o'u cynnaliaeth yn myned drwy law dyn. Y mae dyn a'r anifeiliaid dôf sydd dan ei ofal yn dyoddef oddiwrth ei esgeu-

lusdod ei hun, neu fudr-elw ei gyd-ddyn, neu anwybodaeth. Y mae moddion cynnaliaeth yn cael cymmaint o'u cymmysgu, ac yn myned dan gynifer o *processes*, nes y maent yn cael eu llygru yn fynych. Ond nid yw deg i ni daflu y bai hwn ar reswm, ond ar y camddefnydd a'r gwastraff a wneir o hono, a'r anmherffeithrwydd sydd o angenrheidrwydd yn dilyn bodau ag sydd ganddynt y gorchymyn o ymestyn at berffeithrwydd, ac fel rhai sydd i fyned ar gynnydd dros dragywyddoldeb.

Y mae eu Tad nefol wedi rhoddi rheolau o flaen deiliaid rheswm fel ag i'w cadw o fewn terfynau cyfraith eu bodolaeth. Galwn y rheolau hyn *Dadguddiad* neu *Grefydd*. Crefydd fel ag y mae yn cael ei dadguddio yn nghalon dyn yn y greadigaeth, a chan genhadon neilluedig Duw, yw y cwmpawd y mae Duw wedi roddi i ddyn, ei greadur rhesymol, i'w gynnorthwyo i hwylio ei long dros for bywyd rhag myned yn ddrylliau ar draethellau annedwyddwch. Yn y modd hwn, y mae gan ddyn ddwy athrawes rwyddgalon i'w dywys i ddedwyddwch; ond ond y mae yn ei gyndynrwydd yn fynych yn eu gwrthod; ac y mae ei Dad yn ei anfon yn ol i'r trydydd dosbarth at reddf i ddysgu gwell *manners*. "Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth." "Ie, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau; y durtur hefyd, a'r aran, a'r wenol, a gadwant amser eu dyfodiad; eithr fy mhobl ni wyddant farn yr Arglwydd."

Y mae rheswm yn uwch na greddf, ac yn peri mwy o ddedwyddwch yn gymmaint ag fod gan greadur rhesymol ymddiried a gobaith yn y dyfodol, tra nad oes gyda'r anifail is-raddol un dychymmyg am y farn. Y maent yn dweyd fod llefau yr arthes ar ol colli ei chenawon mor dorcalonus fel nas gall y dyn mwyaf calon-galed beidio wylo wrth ei chlywed. Y mae y berthynas sydd rhwng mam a'i phlentyn yr un mor anwyl ac agos—"A annghofia mam ei phlentyn sugno," ond y mae hi yn gymharol dawel gan ei bod yn gobeithio gweled haul dysglaer adgyfodiad yn codi tu draw i leni tywyllion y bedd; ac yr adferir i'w golygon a'i chyfeillgarwch anwyliaid ei chalon sydd wedi myned o'i blaen. Y mae mamau tyner-galon Cymru yn gwybod yr adnod fechan gynnwysfawr a dyddanus hono, "Canys byw wyf fi a byw fyddwch chwithau hefyd." Gwelwn fod deiliaid greddf yn ddeiliaid amser yn unig, tra y mae deiliaid rheswm yn ddeiliaid amser a thragywyddoldeb. Cymmaint yn fwy yw tragywyddoldeb nag oes anifail cymmaint a hyny yn uwch yn nghylch bodolaeth yw dyn nag anifeiliaid y maes. Priodol iawn yw geiriau Elihu: "Duw, yr hwn a'm gwnaeth i; yr Hwn sydd yn rhoddi i ni achosion i ganu y nos. Yr hwn sydd yn ein dysgu yn fwy nag anifeiliaid y ddaear, ac yn ein gwneuthur yn ddoethach nag ehediaid y nefoedd."

Hyd yma yr ydym wedi sylwi ar fywyd mewn modd cyffredinol, a dangos fod creadur rhesymol yn rhagori ar ddeiliaid greddf. O hyn yn mlaen, ceisiwn ddangos beth yw rhagoriaethau bywyd dyn. Y mae Crist yn dweyd:—"Nid yw bywyd dyn yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo." Wel, ar beth y mae yn sefyll? Byddai yn briodol sylwi fod bywyd anifail yn ymddibynu ar gyflawnder o ymborth cymhwys i'w gyfansoddiad, a digon o awyr iachus a hinsawdd

addas i'w natur, ond nid felly gyda dyn ; er ei fod yn gofyn rhyw bethau tebyg i greaduriaid ereill er cynnal ei gorff, y mae ei feddwl hefyd yn gofyn ymborth. Y mae bywyd dyn i gael ei dreulio mewn rhyw beth uwch na darparu ar gyfer angenion corff yn unig. Y mae cydwybod gan ddyn; ac y mae dedwyddwch dyn yn ymddibynu ar gyflwr ei gydwybod. Lle bynag y mae argyhoeddiad cydwybod oleuedig a buchedd dyn yn cydgordio, y mae dedwyddwch yn y fan hono. Fel creadur moesol y mae bywyd dyn yn ymddibynu ar y cynnydd moesol y mae yn wneuthur. Y mae dyn hefyd yn fod cymdeithasol a deallawl, ac fel y cyfryw y mae ganddo ddyledswyddau arbenig i'w cyflawnu yn y cylch y mae wedi cael ei osod ynddo. Gan hyny, pa fwyaf o aberth a wnelo dyn dros y gwirionedd, a thros ddyrchafu sefyllfa ei gyd-ddeiliaid o'r gymdeithas ddynol, mwyaf sylweddol i gyd yw ei fywyd.

Dylai fod yn bwnc gwastadol gan ddyn i gadw ei unigolrwydd personol—i gadw ei *individuality*—i beidio myned i golli yn y lluaws. Y mae llawer o ddynion yn byw yma na fyddir yn gwybod eu bod wedi byw o gwbl ar ol y rhoddir hwy ar "arffed dae'r i orphwys." Y maent yn myned drwy y byd yma fel saeth drwy yr awyr, heb wneuthur yr un argraff arno. Y mae gan bob un ryw genadwri fechan i'w thraddodi i'r byd, a'i ddyledswydd yw ei hysgrifenu ar lyfr amser, er adeiladaeth i'w olynwyr. Y mae dylanwad dyn gweithgar a rhinweddol ar gymdeithas yr un fath a charreg ar lyn o ddwfr. Y mae y dwfr yn ymdòni bob ffordd hyd y ceulanau pan y tafloch garreg iddo; yr un modd cymmeriad dyn: y mae ei gyfeillion yn ei efelychu, ac ereill yn efelychu y rhai hyny, nes y mae yr effaith braidd yn ddiderfyn.

Nis gallwn ddyweyd fod neb yn byw mewn gwirionedd os nad yw yn ceisio hyrwyddo dedwyddwch ei gyd-ddyn yn gystal a'i ddedwyddwch ei hun; oblegid nid oes dim hunangarwch—dim *selfishness* yn perthyn i'r *gwir ddyn*. Y mae y dyn ag sydd yn byw mewn gwirionedd yn ystyried pob un fel rhan o'i deulu, ac y mae ei rinweddau yn disgyn fel cawodydd maethlon ar ei gyd-ddynion. Y mae fel haul yn ffurfafen cymdeithas, a'i gynghorion a'i eiriau caredig yn ymwasgar fel pelydrau disglaer. Ddarllenydd, bydded dy fod tithau fel haul yn dy gymmydogaeth dy hun yn tywallt goleuni ar feddyliau dy gyd-ddynion, fel ag i'w cynorthwyo i weled gwerth rhinwedd, a'u dwyn o gaethiwed llygredigaeth ac annedwyddwch "i ryddid gogoniant plant Duw," gan gofio mai nid ar amlder cyfoeth, ac nid ar helaethrwydd gwybodaeth dyn yn unig y mae ei fywyd yn sefyll, ond ar amlder ei weithredoedd da.

Nid y dyn ag sydd yn cael yr amser hwyaf ar y ddaear sydd yn byw fwyaf, ond y dyn yr hwn sydd yn gwneuthur y defnydd goreu o'i amser. Dyna Iesu Grist: rhyw dair blynedd fu ar chwareufwrdd bywyd cyhoeddus; ond darfu iddo fyw mwy yn y cyfnod byr hwnw na neb mewn oes gyfan cyn neu wedi hyny. Pa beth y mae ei ddysgyblion yn ddyweyd am dano? "Iesu o Nazareth, yr hwn a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni." B'le bynag yr elai, yr oedd yn ceisio "dryllio cestyll annuwioldeb i'r llawr" ac adeiladu

muriau rhinwedd. Yr oedd bob amser yn ymladd yn wrol dan faner wen moesoldeb, ac arni yn argraffedig, "LLES DYN." Yn awr, anwyl ddarllenydd, ystyria pa fodd y mae i ti ateb dyben dy fodolaeth, ac fod dy fywyd yn sefyll ar pa fodd yr ydwyt yn ei dreulio—mai "beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe." Dylai dyn ystyried fod helaethrwydd cylch ei ddedwyddwch yn ymddibynu ar y graddau fyddo wedi ymdrechu i wneyd ei oreu yn ei gylch yn y byd yma fel creadur rhesymol, cymdeithasol, moesol, a chyfrifol. Y mae yn wir nas gall pob un fod yn orenwog ac yn rhyw *reformer* mawr; ond cofier fod pawb yn aelodau i'w gilydd, ac fel y cyfryw gwnaed pob un ei oreu i gyflawni rhan aelod, gan gofio na chyll yr hwn a rydd phiolaid o ddwfr oer yn enw dysgybl ei wobr. Yn y wlad yr oedd teulu yn byw, yn gynnwysedig o wr a gwraig a thri o blant. John, yr ieuangaf o honynt, oedd oddeutu chwech oed. Un diwrnod fe aeth y tad a'r fam i'r farchnad i'r dref gymmydogaethol, gan adael y tŷ yn ngofal y plant. Yn eu habsenoldeb torodd tân allan yn y tŷ; ond drwy ddewrder y ddau blentyn hynaf, llwyddwyd i'w ddiffodd. Y noson hono, dyna'r tri phlentyn yn myned i gyfarfod â'u rhieni, yn awyddus i adrodd helynt y tân a'u buddugoliaeth ar y fflamiau. Wedi iddynt gyfarfod â'u gilydd, a'r plant henaf i adrodd gyda'r fath ddewrder yr oeddynt wedi diffodd y tân, er mawr foddhad i'w rhieni, dyma y tad yn troi at yr ieuangaf, ac yn gofyn: "John bach, beth oeddet ti yn wneyd, fy machgen i?" Meddai'r plentyn, tra yr oedd brwdfrydedd yn serenu yn ei lygaid, "Chwi wyddoch, 'nhad, fy mod i yn rhy fychan i wneyd llawer, ond yr oeddwn yn *clapio* fy nwylaw." Ddarllenydd, yr ydwyt yn gweled tân llygredigaeth ac anwybodaeth yn difa ddedwyddwch dynoliaeth; dangos, fel John bach, dy fod am ei ddiffodd. Y mae genyt ryw gyfle, gan nad beth fo dy sefyllfa, i effeithio yn ddaionus ar gymdeithas. Ond i ti ffurfio dy gymmeriad yn ol y *golden rule*—"gwnewch i ereill fel y dymunech i ereill wneyd i chwithau"—byddi yn gonglfaen hardd yn adeiladwaith mawr cymdeithas ddynol, a bydd yr oes nesaf yn coffa dy enw gyda pharch fel un wedi gwneyd ei ran i ddwyn oddiamgylch wareiddiad y byd. Bydded fod bywyd ynot i "sefyll yn y dydd drwg," pan fyddo profedigaeth a'i geiriau teg yn agor ei breichiau i'th dderbyn. Rhaid cael pysgodyn byw i fyned yn erbyn y llif, ond gall pysgodyn marw fyned gyda'r llif yn eithaf rhwydd. Bydded fod cariad brawdol yn elfen lywodraethol yn dy galon; oblegyd dyna pa fodd mae i ti ddangos dy fod yn caru Duw, yw dy fod yn caru dy gyd-ddyn. Paid cysgu dy fywyd ymaith a meddwl y daw *gwir fywyd* i chwilio am danat tra yr ydwyt yn gorwedd ar wely difaterwch.

"Ynfydrwydd yw disgwyl y daw
  Anrhydedd i chwilio am danat—
Nid disgyn fel cawod o wlaw
  O'r nefoedd wnaiff urddas chwaith arnat.
Rhaid i ti anturio dy hun,
  Os ydwyt am adael dinodedd—
Rhaid i ti anturio fel dyn,
  Os ydwyt am ennill anrhydedd."

Bydded i ti, gan hyny, ufuddhau i Reswm a Chrefydd, fel ag y byddo iddynt dy ddwyn i'r nefoedd ; ac yno cei weled un o honynt bob ochr i ti yn rhoddi ar dy ben ogoniant, a'r holl dyrfa yn dywedyd, Amen.

Cefncoed. E. Ceredig Jones.

GWEDDIAU I DERFYNU'R YSGOL.

I.

Ein Tad o'r Nef, edrych i lawr ar dy blant, a gwrando eu gweddiau. Cynnorthwya ni, Oh Arglwydd, i gadw ar gof trwy yr wythnos y pethau da a glywsom y dydd hwn. Bydded i ni fynych gofio mor fawr yw dy gariad Di tuag atom, a bydded i ni dy garu Di yn ormod i ryfygu pechu yn dy erbyn trwy wneuthur yr hyn a wyddom nad yw yn iawn. Bydded i ni fod bob amser yn ddigon gwrol i ddweyd y gwir ; a phob amser yn berffaith onest ; ac Oh Dad, rho i ni nerth i beidio myned byth i natur ddrwg. Bendithia bawb sydd yn anwyl genym, trwy yr wythnos ddyfodol, a bydded i ni gael cyfarfod dydd Sul nesaf gyda chydwybodau pur, a chyda chalonau llawn o gariad. A'r oll a ofynwn fel dysgyblion Crist Iesu. Amen.

II.

Oh Arglwydd ein Duw ; cyn y byddom yn ymadael â'n gilydd, a myned bob un i'w gartref, yr ydym yn gofyn i Ti'n cynnorthwyo ni i gadw pob penderfyniad da a wnaethom y dydd heddyw. Bydded i'r meddwl am yr hyn ydym wedi ei glywed a'i ddysgu yn yr Ysgol Sul, ein helpu mewn gwirionedd i ymdrechu yn ystod yr wythnos i'th garu Di yn fwy, a'th wasanaethu Di yn well. Bydded i ni geisio dyfod yn fwy tebyg i'r Iesu, ac i fod yn addfwyn ac yn dyner gartref ac oddi cartref. Os pechwn, bydded i ni geisio dy faddeuant Di. Os byddwn glaf, dyro i ni amynedd. Os cawn ein temtio, gwared ni rhag y drwg. Os byddwn mewn tristwch neu adfyd, bydded i Ti ein cyssuro. Ac i Ti y byddo yr holl glod yn awr ac yn oes oesoedd. Amen

III.

Oh Arglwydd Dduw Hollalluog, Ti a wyddost pwy o'r rhai sydd yn awr ger dy fron ydynt yn ceisio y dydd hwn dy foddloni, a phwy hefyd sydd wedi bod yn ddiofal ac yn ddisylw. Cynnorthwya Oh Arglwydd y rhai ydynt wedi gwneuthur yn iawn, i fyned yn y blaen o nerth i nerth, gan gofio yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd Iesu, y gall plant bychain ddyfod ato Ef ; ac Oh maddeu i'r rhai a allant fod wedi gwneuthur drwg y dydd hwn, a chaniata amser iddynt i ddyfod yn ddoethach. Dyro i ni, yr ydym yn deisyf arnat, gael mwy o gariad tuag atat Ti, a dyro i ni o wythnos i wythnos, i gael dyfod yn fwy tebyg i'th Fab anwyl. Tyred gyda ni yn awr, Oh Arglwydd, i'n

cartrefleoedd, a chaniata i ni ras i fod yn onest, yn eirwir, yn fwyn, yn garuaidd, fel y gweddai fod dysgyblion Iesu Grist. Amen.

IV.

Ein Tad nefol, diolch i ti am dy dynerwch a'th ofal drosom yn ystod y dydd hwn. Ein cais trwy yr wythnos fyddo i wneuthur a allom dros ereill, i fod yn addfwyn ac yn garuaidd tuag at bawb y deuwn i gyffyrddiad â hwy. Oh Arglwydd, bendithia ein rhieni, ein brodyr, ein chwiorydd, a bydded i'n hathrawon y dedwyddwch o wybod eu bod hwy yn ein cynnorthwyo i dyfu yn fwy tebyg i'n Iachawdwr bendigedig; bydded ei eiriau mwynion ef yn gynnorthwy i ni pan mewn profedigaeth, a bydded i ni oll i fyw yn y cyfryw fodd, fel pa bryd bynag y rhynga fodd i Ti i ni gael marw, y byddo i ni y pryd hwnw i gael myned i'r nefoedd, a byw gyda Thi yn oes oesoedd. Amen.

V.

Ein Tad o'r Nef, yr ydym yn awr yn gofyn i Ti ganiatau dy fendith i ni, cyn yr ymadawom bob un i'w gartref. Ti yn unig a wyddost galon pob un o honom, a pha un a ydym mewn gwirionedd yn ymdrechu ufuddhau i Ti, ac i ddysgu gan yr Arglwydd Iesu felly i'th garu a'th wasanaethu, fel y byddom yn addas i farw pan y gweli Di'n gymhwys. Maddeu i ni bob peth a wnaethom ar gam y dydd hwn, a bydded i ni gael gras i beidio gwneuthur felly mwy. Bendithia bawb sydd yn anwyl genym, a gwrando ein gweddiau fel dysgyblion Crist. Amen.

VI.

Tad pob trugaredd â Duw pob gras. O'th flaen Di y dymunem ddyfod yn awr, gyda chalonau diolchgar i Ti am i ni gael y fraint newydd hon, o ymgynnull i'r lle hwn unwaith etto, cyn yr elom ac na byddom mwy, i ddarllen a myfyrio geiriau'r bywyd tragywyddol. Diolch i Ti am danynt ac am gyflawnder y bendithion a gynnwysant. Diolch i Ti am Iesu Grist, yr hwn sydd wedi dy ddangos Di, y Tad cariadlawn, i bawb a ewyllysiant dy weled. Ni a weddiwn ar ei fod ef i bob un o honom yn ddysgleirdeb dy ogoniant ac yn wir lun dy berson. Bydded i ni deimlo dylanwad bendithiol ei fywyd a'i athrawiaeth fwy fwy yn barhaus. Bydded iddynt ddyfod yn allu Duw i ni er iechydwriaeth. Yn eu goleuni bydded i ni rodio, yn eu purdeb bydded i ni ymsanteiddio, ac yn eu perffeithrwydd bydded i ni ymberffeithio fel y mae ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith. Y mae genym anhawsderau mawrion, gwrthwynebiadau cryfion, a gelynion lluosog a nerthol i gyrhaedd y nod; ond diolch i dy enw, yr wyt Ti yn adwaen ein defnydd ni ac yn cofio mai llwch ydym, ac nid oes i ni archoffeiriad heb fedru cydymdeimlo â'n gwendid ni, eithr wedi ei demtio yn mhob peth yr un fath a ninau. Boed i ni y fraint werthfawr o gadw ein golwg arno, yn nghanol drygau a themtasiynau'r byd, fel y derbyniom nerth i orchfygu'r cyfan fel y gwnaeth ef, a bod yn ffyddlon trwy bob peth i alwedigaethau uwchaf y bywyd gwerthfawr sydd yr awr hon, ac y caffom yn y byd a ddaw etifeddu coron anniflanedig

y gogoniant. Yn ostyngedig y cyflwynwn ein hunain i nawdd dy gariad Di yn awr, gan goffhau mewn cydymdeimlad ger dy fron am bawb ydynt mewn cyfyngderau a gwasgfeuon, a bod yn gwbl hyderus y gwnai Di â hwynt ac â phawb yn dra rhagorol y tu hwnt i bob peth a fedrwn ei ddymuno. I Ti y bo'r moliant dros yr holl genedlaethau yn oes oesoedd. Amen.

NEFOEDD Y MAHOMETANIAID.

Mae'r Koran yn ei gwneuthur yn ddyledswydd ar bawb gwir gredinwyr i ymladd dros eu crefydd, a gosodir cleddyf ar y pulpud i adgofio'r bobl o'r rhwymedigaeth sanctaidd yma. Gelwir y cleddyf yn allwedd nefoedd ac uffern. Gelwir y rhai sydd yn marw dros eu crefydd yn ferthyron, ac y mae ganddynt hawl i gael mynediad uniongyrchol i'r nefoedd; tra mae y rhai a redant ymaith yn cael eu dedfrydu i uffern. Ac nid rhyw baradwys gyffredin, yn eu tyb hwy, y mae'r merthyron yma, gyda "gwir gredinwyr" ereill, i gael myned i mewn iddi. Caiff y gwaclaf o breswylwyr y baradwys yma 80,000 o wasanaethyddion; 72 o wragedd o blith merched paradwys, a llygaid duon ganddynt, heblaw'r gwragedd oedd ganddo yma, os chwenycha hwy; gosodir pabell iddo o berlau, iacynth, ac emerald; gwasanaethir arno pan yn bwyta gan 300 o weision, oll wedi eu gwisgo mewn sidanau ac wedi eu haddurno â breichledau o arian ac o aur, a choronau o ddysgleirdeb annghymharol. Caiff ei wasanaethu mewn llestri o aur, a gosodir 300 o'r rhai hyn o'i flaen ar yr un pryd, a phob un yn cynnwys gwahanol fath o fwyd. Ac er fod gwin yn cael ei wahardd iddo yma, caniateir iddo yno i yfed ei wala, ac etto ni bydd iddo feddwi. Addewir iddynt hefyd ieuenctyd parhaus, a chynnifer o blant ag a ewyllysiant. Bydd y carpedau, y *divans*, a'r gobenyddiau wedi eu hymylweithio yn y modd mwyaf ardderchog. Eir i'r baradwys yma dros bont a elwir *Es-sirat*, yr hon sydd feinach na blewyn o wallt a llymach na chleddyf, ac yn cael ei hestyn dros ganol uffern; bydd y drwg yn syrthio dros y bont yma.

Pechu yn rhyfygus:—Pechu, mewn gobaith cael etto amser i edifarhau, yw gwneuthur peth mewn gobaith cael etto ryw ddydd deimlo cywilydd mawr o'i blegid; ryw ddydd i gael teimlo o galon yn ofidus ein bod wedi ei wneuthur. Gwneuthur peth ydyw mewn gobaith y cawn etto gondemnio ein hunain o'i herwydd, a dymuno filwaith ein bod heb erioed wedi ei wneuthur; mewn gobaith cael etto ein llanw â dychryn wrth feddwl am yr hyn a wnaethom, a chael trysori cymmaint o euogrwydd yn ein cydwybodau ag a'n gwna ni yn ddychryn i ni ein hunain, ac yn barod i'n gyru hyd y nod i anobaith ac ynfydrwydd.—*Tillotson.*

Darnau Byrion.

Cofleidio'r byd, mae'n debyg i gofleidio'r eira, yn fuan yn toddi ymaith.

Mae Duw wedi addaw maddeuant i'r hwn sydd yn edifarhau, ond nid yw wedi addaw edifeirwch i'r hwn sydd yn pechu.

Nid oes dim yn ddychrynllyd yn angeu; gorphwysiad natur flin yw; y mae yn cymeryd dynion ymaith bob yn un, tra y mae'r byd yn parhau i fyned rhag ei flaen. Yr ydym yn ei ofni yn y pellder, ond dim yn agos.—*Jowett.*

Yn ei lyfr newydd, "Rise and Progress of the Christian Religion," y mae Arglwydd Russell yn dywedyd fod i grefydd dair sylfaen: Fod Duw yn ysbryd, gwneuthurwr nef a daear; fod Crist wedi ei anfon oddiwrth Dduw, ac wedi dadguddio i ddynion genadwri Duw; fod Crist wedi marw dros ddynolryw.

Pethau yn Newid.—Un Sul yn ddiweddar, pan oedd dosparth o fobl ieuainc yn yr ysgol yn darllen yr hanes yn yr Actau am yr apostolion yn cael eu llanw â'r ysbryd glân, pan y cyhuddwyd hwy o fod yn llawn o win melus ar y drydedd awr o'r dydd (sef am naw yn y boreu), a'r syndod mawr oedd gan y bobl wrth hyny, sylwodd un o'r dosparth nad oedd dim o'r apostolion yn byw yn Nghymru, oblegyd pe buasent, ni fuasai neb yn cael ei synu.

Rhoi Diolch.—Yr oedd dyn, wedi colli ar ei synwyrau, un tro yn pasio ar hyd un o heolydd Llundain, lle'r oedd lluaws o farsiandwyr ac ereill. Yn ddisymwth aeth i fyny at un o honynt a dywedodd: "Syr, a ydych yn diolch i Dduw byth am eich rheswm?" "Na, nid wyf yn gwybod fy mod," meddai'r dyn. "Wel, chwi ddylech," ebe efe, "canys *yr wyf fi wedi colli'r eiddof fi.*" Dywedodd y marsiandwr na ddarfu iddo byth ar ol hyny roi diolch i Dduw, heb gofio gyda chalon ddiolchgar hefyd am reswm a synwyr.

Alcohol.—Un o erthyglau ffydd y llwyrymwrthodwyr yw, nad yw yn iawn cyffwrdd â dim yn cynnwys alcohol. Yn ol y *Chemical News* am Mai 30ain, y mae Mr. Thomas Bolas wedi profi presenoldeb alcohol mewn bara! Beth nesaf? Gwir nad oes dim llawer ynddo. Ond beth waeth llawer nag ychydig? Mae yno; ac nid yw yn iawn cymmeryd alcohol. Mae 40 torth dau-bwys yn cynnwys cymmaint o alcohol â photelaid o *port wine*; ac os yw yr olaf yn ddigon i feddwi dyn, tebyg y gwna y blaenaf yr un peth.

Hanesion.

Gwyl De yr Hen Dy Cwrdd.—Cynnaliwyd Gwyl Dê yn Hen Dy Cwrdd Aberdar, Gorphenaf 23ain, 1874. Cyfranogodd tua 500 o'r danteithion oedd wedi eu parotoi; yn mhlith y cyfryw, cafodd plant yr ysgol Sul a berthynai i'r capel o dan 15 oed eu tê, &c., yn rhad ac am ddim. Teilwng yw sylwi fod y capel wedi ei addurno yn brydferth dros ben ag arluniau a blodau amryliw o bob math, trwy ymdrech Mr. Griffiths, Miss Griffiths, ac ereill. Yn yr hwyr, cynnaliwyd cyngherdd, pryd y gwasanaethodd côr y capel gyda chynnorthwy ereill, a chanwyd y cwbl yn ardderchog. Yr oedd y capel yn orlawn o wrandawyr. Cymmerwyd y gadair ar yr achlysur gan John Hammet, Ysw., Werfa, a chyflawnodd ei swydd yn anrhydeddus.—*E. Cynon.*

Gwyl De.—Dydd Llun, Awst y 3ydd, cawd gwledd ragorol o dê a bara brith, a pheth bara ac ymenyn, yn y Cwmbach, o'r hon y cyfranogodd dros chwe' chant. Yr amcan mwyaf neillduol mewn golwg wrth ei chynnal oedd cael arian i dalu am yr *harmonium* newydd sydd wedi cael ei ddwyn yn ddiweddar i'r capel. Yr oedd yr adeilad wedi cael ei addurno yn hardd iawn gan y merched ieuainc. Gan nad yw gofod yn caniatau i ni enwi yr oll o honynt, ni chawn enwi yr un, ac hyderus gredwn y cawn faddeuant ganddynt am beidio gwneyd felly. Yr oedd y deisen yn flasus iawn, a'r canu a'r siarad yn yr hwyr yn effeithiol, ac aeth pob peth yn mlaen wrth ein bodd. Gwasgarodd y dorf o gylch deg o'r gloch. wedi cael eu boddloni yn fawr yn y darparpariadau a wnawd ar gyfer corff a meddwl, —L.

Gohebiaethau.

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Mr. Gol.,—Gobeithio y caniatewch i'r llinellau canlynol ymddangos yn yr YMOFYNYDD. Mae'n wybyddus i lawer fod penderfyniad wedi ei wneyd yn Nghyfarfod Blynyddol Rhydygwin eleni i ddwyn casgliad newydd o emynau allan, ac fod gwir angen am dano yn ein cynnulleidfaoedd. Yr ydwyf finau, fel un ag sydd yn dymuno llwyddiant i'r achos Undodaidd, yn credu y byddai'r casgliad uchod yn llawer mwy derbyniol gan y cyhoedd, ac yn fwy defnyddiol o lawer yn ein plith, pe byddai yn cynnwys emynau a thonau, tebyg i'r rhai sydd gan ein brodyr o wahanol enwadau. Byddai hyny yn fautais fawr i'r cantorion ar lawer ystyr, pe byddai yr arweinyddion yn dygwydd bod yn absenol, a'r rhai llai gwybodus yn ymdrechu llanw eu lle. Byddai yn gynnorthwy i'r cyfryw er cael y dôn a'r gair o'r un mesur, ac heblaw hyny byddai yn hwylusdod mawr i'n harweinyddion yn gyffredinol, er cadw rhag yr "ieuo annghymharus" ag sydd yn rhy fynych i'w glywed genym, oblegyd byddai nodwedd y tonau yn cyfateb i ystyr ac ysbryd yr emynau perthynol iddynt. Gallesid enwi llawer o ragoriaethau ereill, ond gadawn gydag un sylw, sef, y gallai pob darllenwr cerddoriaeth uno yn ein cyfarfodydd blynyddol a chwarterol, &c., trwy gario dim ond un llyfr ganddo. Yn awr mae'n rhaid cario amryw, ac efallai y gadewir yr un mwyaf pwysig ar ol wedi'r cwbl. Digon tebyg bydd rhai yn meddwl na ddaw y fath lyfr byth allan, am y rheswm y bydd yn rhy ddrud. Nid wyf yn meddwl iddo ddod heb danysgrifiad. Yr ydwyf fi yn un yn foddlon rhoi £1, ac yr wyf yn gwybod am bersonau ereill hefyd y byddai'n dda ganddynt gael cyfleusdra i roddi yr un faint atto. Gobeithio bydd i ryw un roddi cefnogaeth i'r uchod yn yr YMOFYNYDD nesaf. Bydd ei dudalenau yn gyfleus iawn o bryd i bryd er cael gwybod meddyliau y cyhoedd o barthed iddo, a'r modd goreu i'w ddwyn yn mlaen.

Yr eiddoch yn gywir,

J. J.

Mr. Gol.,—Yn yr YMOFYNYDD am Ragfyr, 1873, mae dau bennill yn dechreu—

"'Rwyf yn terfynu 'nghred,"

am y rhai y dywedir eu bod "wedi eu hysgrifenu" gan y Parch. Aaron Williams, o'r Nottais. Gallant fod wedi eu hysgrifenu ganddo ef, ond yr awdwr yw Willi am Pantycelyn. Gwelir hwy mewn emyn yn dechreu,—

"'Rwy'n ofni'm nerth yn ddim,
Pan elwy'i rym y don."

Gweler Llyfr Hymnau y Methodistiaid Calfinaidd, Rhif 633.

W. J.

Marwgofion.

Gorphenaf 23, Margaret Jones, Appiorum, Cribin, yn 55 oed. Gadawodd briod a chwech o blant i alaru ar ei hol Yr oedd yn naturiol yn feddiannol ar bwyll cryf, ac yr oedd hwn wedi ei drwytho yn dda yn nhreialon llymion bywyd, nes yr oedd ei cherydd a'i chynghor bob amser yn beth gwerth i ddyn ail-feddwl arnynt yn ei oriau goreu. Ceisiodd yn gynil lawer tro ddysgu gwersi o ddoethineb i'r ysgrifenydd. Byw yn hir y byddo yn nheimladau ei phriod a'i phlant ac ereill. Ffarwel, anwyl chwaer. Claddwyd hi yn mynwent Capelygroes, pryd y pregethodd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr.

Gorphenaf 26, yn ddwy flwydd oed, Ann Beynon, merch Mr. Thomas a Mrs. Mary Morgan, Cefncoed. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn mynwent yr Hen-dy-Cwrdd. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Mr. Ceredig Jones.

Congl yr Holiedydd.

DIAREB GUDDIEDIG.

Yn llyfr y Diarebion, gweler a ganlyn, a chymmerer un gair allan o bob diareb yn olynol, i gael allan y ddiareb guddiedig: xxiii. 23; xv. 32; x. 1; xxviii. 18; iii. 29; xv. 19; xxix. 24; xiii. 20; xvii. 5; i. 33.—Rhodder y cyfeiriad.

MENTOR.

ACROSTIC YSGRYTHYROL.

1. Un o frodyr Joseph.
2. Tad Gaal.
3. Un o'r Proffwydi.
4. Mam un o Freninoedd Israel, a deyrnasodd 29 mlynedd yn Jerusalem.
5. Tad Eliasaph.
6. Cadben meibion Zabulon.
7. Un o feibion Senacherib.
8. Un o'r Eglwysi yr ysgrifenodd Ioan atynt.

Mae y llythyrenau cyntaf o'r enwau hyn yn gosod allan enw gwr y llanwodd Duw ef â'i ysbryd, mewn cyfarwyddyd, mewn deall, mewn gwybodaeth, &c.

UN ARALL.

Adgof rhwng cyfeillion pan yn absennol oddiwrth eu gilydd.

1. Un y darfu i ddysgybl ei glwyfo a'i feistr ei iachau.
2. Y gogoniant a ymadawodd o Israel.
3. Un a eneiniodd frenin enwog.
4. Un o ddau frenin a aethant i fyny i Jerusalem i ryfel.
5. Un o'r ddau a dderbyniasant sen oddiwrth Pharaoh.
6. Awdwr un o weddiau mwyaf tarawiadol yr Hen Destament.

A ydyw yn ffaith fod menyw wedi bod yn eistedd ar yr orsedd babyddol?

ANWYBODUS.

DAVIES, CASTELL HYWEL.

Yn y rhifyn diweddaf, tudalen 138, dywedir i Mr. D. gael ei eni yn 1745, ac iddo farw yn 1827 yn 81 oed. Yn awr, carwn wybod pa fodd y gall byn fod. Yn ol rheolau cyffredin rhifyddeg, dylasai fod yn 82. Feallai fod rhyw ddirgelwch yn yr O. S. yna. Dyry esboniad o bossibl oleuni i ereill heblaw

ANWYBODUS.

JOAB A SERFIAH (TUD. 142).

Mae amryw wedi ateb mai tad a mab (wrth gwrs?) ydyw y berthynas; ond ni roddant yr un cyfeiriad ysgrythyrol i brofi hyny. Mae D. C. Morgan, Llidiadnenog; J. Evans, Frowen; a J. W., Blaengwrach, yn barnu fod Serfiah yn fam i Joab, gan gyfeirio at 1 Cron. ii. 16.

Barddoniaeth.

ER COF AM THOMAS W. JENKINS, GLANWERN.

Testyn yn Eisteddfod gadeiriol Talysarn, Dyffryn Aeron, 1874. [Buddugol].

Glanywern! goleuni aeth—i ti'n nos
O tan ing marwolaeth
Unig blentyn; hyn a'th wnaeth
Yn le oer, a theml hiraeth.

Y gwr ieuanc gwâr wywodd—nid yw mwy,
Tad a mam adawodd;
I'w elor daeth,—galar dodd
Y dynion a'i hadwaenodd.

Cyfaill glan—anian ei enaid—yn bur,
Un a'i barch yn danbaid,
Oedd yr un cu, yn addurn caid
Ef wed'yn i'w gyfoediaid.

Er addysg a phob rhoddion,—er golud,
Er gwiwlan ddysgwylion,
Ei oes hardd—pan ddoi nos hon,
Gwywai byth bob gobeithion.

Ond er wylo dwr helaeth,—yn isel
Mynweswn y dybiaeth
Caiff Thomas bur, er cur caeth,
Ei delyn uwch gwlad alaeth.

Y car anwyl e'i ceir heno—'n dawel
Tan dyweirch yn huno;
A rhyw sut *erys* etto—
Yn *byw* y'i ceir yn mhob co'.

CYFOED GALARUS, sef GRANELLIAN.

Y FRAWDLE OLAF.

O flaen y Frawdle Olaf,
Bydd yno dorf yn nghyd;
Na bu ei bath yn unman,
Er creadigaeth byd;
Ymgasgla'r byw a'r meirw
Gerbron yr orsedd fawr,
I glywed llais y Barnwr,
Bydd hono'n ddifrif awr.

Pwy saif heb arswyd arno
Yn nydd y farn a ddaw,
Pwy saif pan rhaid rhoi cyfrif,
Heb ddychryn ofn na braw?
Oes modd i groesi'r gwersyll
I'r dyogelaf fan;
Pryd bydd rhyw gosp neu wobr
Yn aros pawb yn rhan?

Fe saif y cywir Gristion,
Gwir ddelw Duw ei hun,
Ni waeth beth fydd ei gyflwr,
Na chwaeth ei liw na'i lun;
Y cyfiawn saif yn gadarn,
Diysgog bery byth,
A gwyn ei fyd, was diwyd,
Yn ngwaith ei Dduw'n ddilyth.

Holl saint yr oesau resir,
Goreuon crëad Duw,
A meibion hedd adweinir,
Gerbron eu Barnwr gwiw;
I glywed y gwahoddiad,
Melusaf eiriau hedd—
"Dewch chwi fy mhlant, O deuwch
Cewch ran o'r nefol wledd."

Am ran o'r wir gyfeillach,
Sychedu b'wyf bob awr,
Fel safwyf yno'n gadarn
O flaen yr orsedd fawr,
A nerth fy Nuw'n fy nhywys,
At ddyfroedd melus pur,
Sy'n ymryddhau pob enaid,
Rhag ofnau, poen, a chur.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

CARIAD DUW.

Cyfansoddwyd y pennill canlynol gan W. Dafydd o'r Nottais, wrth weled cafod o wlaw hyfryd ar ol hir sychder:—

Bendithion ar fendithion
O'r nefoedd y'nt yn dod,
Oddiwrth y Bod trugarog,
Y Cariad mwya' erioed;
Yr hwn sy'n cynnal bywyd
Yn mhob peth ar y llawr;
Bydd canu am ei gariad
Yn nhragwyddoldeb mawr.

FFYDD A GWEITHREDOEDD.

Mae'n ymladd am eu ffurfiau ffydd
Benboethiaid â'u holl ddawn
Nid pell o le ffydd hwnw sydd
A'i fywyd yn yr iawn.

FFARWEL CYFEILLION.

Car ar ol car sy'n gadael ein terfynau,
Pwy nad yw wedi gweled claddu car?
'D oes ar y dda'r un undeb o galonau,
Nad yw'n terfynu hefyd ar y dda'r.

DRWG.

Mae drwg fel careg dreiglo,
Ar gopa mynydd mawr,
Gall plentyn bach ei chyffro,
Ei hatal nis gall cawr.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

E. J., Caerfyrddin; J. E., Nantgwyn; W. G., Pontyberem; J. D., Llandybie; Dr. D., Deri; E. G., Aberdare; J. Ll., Aberdare; J. W., Blaengwrach; T. D., Llwynrheol; W. H., Cefn; J. J., Cwmbargoed; R. P., Blaentrafle.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn Rhifyn Awst, tud. 135, ll. 4, darllener, gogoniant os nad yw, &c.—o'r gwaelod, ll. 10, darllener, yn bresenol *y mae* yn rhoddi, &c.—ll. 8, darllener, ei dystiolaethau. Os, &c.—ll. 7, darllener, dros dragywyddoldeb, mae y Beibl &c. Tud. 136, ll. 2 o'r gwaelod, darllener, ei ganlyniadau annymunol, *trwy ddwyn* dynion, &c.

Yn awr allan o'r Wasg, pris Dau Swllt, y pedwerydd Argraffiad o

AFALAU'R AWEN

Sef Caniadau Duwiol a Moesol; yn cynnwys Anerchiadau i Fyw yn Weddaidd, ac i Ymddwyn yn Gariadus at bawb o Ddynolryw.; gan

EDWARD EVAN, O ABERDAR.

At ba rai yr ychwanegwyd Llyfr y Pregethwr, ar Fesur Cywydd; yn nghyd a Chofiant o'r Awdwr a'i Fab. I'w gael gan Mrs. Kingsbury, Fforchaman, Cwmaman; Rees Evans, Penygraig, Llanfabon; Edward Williams, Prince of Wales, Cap Coch; a chan yr Argraffwyr, Jones a'i Mab, Swyddfa'r *Aberdare Times*, Aberdar.

CWRDD YR HYDREF.

Cynnelir ef yn Rhydypark, ar y 7fed a'r 8fed o Hydref. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

D. L. E.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 8c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., Oxford Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD] HYDREF, 1874. [RHIF 20.

CYNNWYSIAD.

Awdurdod barn bersonol 169
"Pa beth ydych yn wneyd a'ch Beibl?" 172
Pwy sydd yn gwadu anfarwoldeb? 175
Dammeg y talentau 179
Tristwch a'i wersi 183
Llythyr o'r Purdan 184
"Aelod didwyll mewn cymdeithas" 185
Hen lythyrau 189
Gohebiaethau 190
Hanes 191
Marwgof 191
Barddoniaeth 192

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.